

# Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi

## 1af Rhagfyr 2017, Stadiwm Swalec, Caerdydd Cofnodion

Yn bresennol: Kellie Beirne (KB)  
Helen Swygart (HS)  
David Notley (DN)  
Sue Bale (SB)  
Robin Williams (RW)  
Jon Wood (JW)  
Andy Middleton (AM)  
Steve Smith (SS)  
Rhys Thomas (NFU)

Ymddiheuriadau: Jessica Jones (JJ)  
Kirsten Bound (KBo)

Ysgrifennydd: Alastair Davies (AD)  
Philippa Costello (PC)

Siaradwyr Gwadd: Rob Ashelford (RA) (Y Lab)  
Greg Green (GG) (WG)  
Gavin George (GGe) (WG)

Eitem ar yr Agenda		Cam Gweithredu
1	<p><b>Croeso</b></p> <p>Croesawodd KB yr aelodau i bumed cyfarfod Cyngor Cynghorol Cymru ar Arloesi.</p> <p>Croesawodd KB RT, Pennaeth System Arloesi a Thîm Ymgysylltu Prifysgol Caerdydd, i'r Cyngor.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.</p> <p>AM i wahodd Sophie Howe, Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth 2018.</p> <p>Gofynnwyd i aelodau'r Cyngor ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau uniongyrchol neu anuniongyrchol yn yr eitemau ar yr agenda. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.</p>	AM
2	<p><b>Siaradwr Gwadd – Canolfan Profi Gwasanaethau Cyhoeddus - Rob Ashelford, Y Lab</b></p> <p>Mae achos amlinellol strategol ar gyfer canolfan profi gwasanaethau cyhoeddus wedi'i gyflwyno i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan Y Lab, KB ac RT. Mae hyn yn cysylltu â'r gwaith diwygio ehangach yn y sector cyhoeddus o dan arweiniad Llywodraeth Cymru.</p>	

	<p>Rhoddodd RA y newyddion diweddaraf i'r Cyngor ar y syniadau y tu ôl i'r cynnig. Mae canolfan profi gwasanaethau cyhoeddus yn gyfle i arbrofi a datblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a mynd i'r afael â'r heriau mawr yn y gymdeithas.</p> <p>Mae Donyt Economaidd Theori Data Kate Raworth yn ddull defnyddiol o helpu i fapio a grwpio heriau arloesi y sector cyhoeddus yn themâu. Mae'r sector cyhoeddus yn chwarae rhan o ddarparu pob thema sy'n cael ei nodi yn y donyt.</p> <p>Mae enghreifftiau o arloesi presennol o fewn y sector cyhoeddus wedi ei nodi o dan bob un o'r 12 maes sy'n sylfaen i'r enghraifft, ac mae'n dangos sut y mae Cymru eisoes yn arloesi o fewn y meysydd hyn.</p> <p>Awgrymodd RA bod angen i ganolfan profi y sector cyhoeddus ddod â phobl ynghyd, gan eu galluogi i wneud rhywfaint o weithgarwch ac i ysgogi rhywfaint ar uchelgais y sector cyhoeddus i newid y ffordd y mae pobl yn gweithio.</p> <p>Cytunwyd y byddai y Cyngor Cyngorol yn cefnogi'r ganolfan brofi.</p>	
<p><b>3</b></p>	<p><b>Siaradwr Gwadd – Vanguard and Manumix – Gavin George a Greg Green, Llywodraeth Cymru</b></p> <p>Rhoddodd GGe newyddion diweddaraf y Cyngor ar Fenter Vanguard, a sefydlwyd yn 2014, sy'n rhwydwaith o 30 o ranbarthau'r UE. Mae'r Fenter yn dod â rhanbarthau at ei gilydd i rannu arferion gorau a gwybodaeth ar 5 o brif feysydd technolegol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Argraffu 3D;</li> <li>• Gweithgynhyrchu;</li> <li>• Ynni;</li> <li>• bio-economi;</li> <li>• nano dechnoleg.</li> </ul> <p>Mae'r ffocws ar y Lefel Parodrwydd Technoleg 5 (masnacheiddio a datblygu cynnyrch) a'r uchod.</p> <p>Mae GG yn rheoli prosiect Manumix, sy'n brosiect Interreg i werthuso polisiâu Arloesi ar gyfer gweithgynhyrchu uwch. Mae 4 o ranbarthau partneriaid yn rhan o'r prosiect, sef Gogledd-orllewin yr Eidal, Lithwania, Bilbao a Chymru.</p> <p>Crybwyllodd GG 2 o gyfarfodydd Manumix sydd eisoes wedi'u cynnal, yn yr Eidal a Bilbao. Cynhelir cyfarfod nesaf Manumix yn Lithwania ym mis Ebrill. Pe byddai'r Cyngor am ymuno â GG fel rhanddeiliad arbenigol i ddysgu am y polisi arloesi yn Lithwania, byddai'r costau'n cael eu talu.</p> <p>Bydd cyfarfod y daith ddysgu yn dod i Gymru yn ystod yr haf. Anfonwch unrhyw awgrymiadau am syniadau am ymweliadau ac eitemau ar gyfer yr agenda i GG.</p>	<p><b>Cyngor Cyngorol Cymru ar Arloesi</b></p>

	GG i ddosbarthu nodyn ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Gwirfoddolodd DN i fod yn rhan o brosiectau Manumix a VI.	<b>GG</b>  <b>DN</b>
<b>4</b>	<p><b>Y Diweddaraŵ am y Cyngor Cyngorol</b></p> <p>Cynlluniau Gwaith 2018 - Bu i KB atgoffa'r Cyngor beth oedd y cynlluniau gwaith cyfredol - y Corff Gweithredu Cenedlaethol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Arloesi Gwasanaethau'r Cyhoedd, a Chydweithio, a nodwyd nad oeddent yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ddiwydiannol. Cytunwyd bod angen i'r Cyngor Cyngorol ganolbwyntio mwy ar weithredu ac i fod yn fwy heriol. Mae angen i'r cyngor nodi y prif feysydd a phenderfynu ar yr hyn sydd ei angen mewn 10-15 mlynedd y gall Gymru fod yn rhan ohono.</p> <p>Nid yw argymhellion Arolwg Reid i gyrraedd tan ddechrau 2018. Bydd CCAUC yn cael ei ddiddymu a bydd Ymchwil ac Arloesi Cymru yn dod yn ei le fydd yn cyllido Ymchwil cysylltiedig ag Ansawdd gan ganolbwyntio ar ymchwil ac arloesi o fewn prifysgolion yn hytrach nac arloesi ac ymchwil busnes. Credir y bydd Canolfannau Arloesi sydd o dan arweiniad y diwydiant yn cael eu trafod yn yr adolygiad ond nid ydynt wedi'u diffinio.</p> <p>Rhoddodd AD y newyddion diweddaraŵ i'r Cyngor ar y newidiadau o fewn LIC. Mae'r adrannau Arloesi a Sgiliau i adrodd yn ôl bellach i Ken Skates yn hytrach na Julie James a Kirsty Williams. Cafodd David Rosser ei benodi yn Brif Swyddog Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru a gofynnir iddo lunio cynllun busnes ar gyfer yr ardal. Bwriedir dechrau ar y Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ar 12 Rhagfyr. Bydd yn canolbwyntio ar ddull rhanbarthol yn hytrach na fesul sector. Andrew Slade yw Cyfarwyddwr Cyffredinol Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, sy'n disodli James Price, sy'n gadael ar ddiwedd 2017.</p> <p>Penderfynwyd y bydd gweithdy'n cael ei drefnu ar gyfer mis Ionawr wedi i'r Cynllun Gweithredu Economaidd, argymhellion Adolygiad Reid a swyddogaethau a chynllun busnes DR gael eu cyhoeddi i gytuno ar flaenoriaethau a chynlluniau busnes y Cyngor ar gyfer 2018.</p> <p>Cytunwyd y byddai'r aelodau yn dod yn fwy o ran o'r gweithgarwch rhwng cyfarfodydd y Cyngor.</p>	<b>PC a'r Cyngor Cyngorol</b>  <b>Y Cyngor Cyngorol</b>
<b>5</b>	<p><b>ISCF, Bargeinion y Sector, y Fargen Ddinesig</b></p> <p>Rhoddodd JW y manylion diweddaraŵ i'r Cyngor ar y Strategaeth Ddiwydiannol a lanswyd ddiwedd Tachwedd 2017. Mae'r IS yn cynnwys 5 rhan - Syniadau; Pobl; Seilwaith; Amgylchedd Busnes; a Lleoedd ac mae'n nodi 4 o Feysydd yr Her Fawr fel diwydiannau'r dyfodol ar gyfer y DU:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• AI a Data;</li> <li>• Heneiddio'n Iach;</li> <li>• Twf Glân;</li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyfodol Symudedd.</li> </ul> <p>Mae arian yn cydfynd â'r IS y gall busnesau a'r byd academaidd gael mynediad iddo drwy Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol (ISCF) sy'n cael ei redeg gan UKRI o'r 1af Ebrill 2018.</p> <p>Heriau o dan arweiniad y diwydiant yw'r Gronfa Her Strategaeth Ddiwydiannol sydd wedi eu llywio gan academyddion a'r diwydiant ble y mae rhagoriaeth ymchwil yn bodoli. Mae'r Gronfa Her yn rhan o'r Gronfa Cynhyrchiant Cenedlaethol gwerth £4.7 biliwn. Cafodd y 1af o 6 her eu lansio ar ddechrau'r haf yn Nhon 1:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Technolegau gweithgynhyrchu meddyginiaethau;</li> <li>• Robotiaid ar gyfer byd mwy diogel;</li> <li>• Batris ar gyfer storio ynni glân a hyblyg;</li> <li>• Cerbydau sy'n gyrru eu hunain;</li> <li>• Gweithgynhyrchu a deunyddiau y dyfodol;</li> <li>• Lloerennau a thechnoleg y gofod.</li> </ul> <p>Mae Cyfarwyddwr Heriau o'r diwydiant wedi'i benodi bellach ar gyfer pob her.</p> <p>Ail don Heriau y Cyngor Cyngorol, a gyhoeddwyd ar ddiwedd Tachwedd yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Trawsnewid y maes adeiladu;</li> <li>• data am ddiagnosis cynnar a meddyginiaethau manwl;</li> <li>• Trawsnewid cynhyrchu bwyd;</li> <li>• Gwasanaethau y Genhedlaeth Nesaf;</li> <li>• Trawsnewid Ynni;</li> <li>• Heneiddio'n Iach;</li> <li>• Cynulleidfa ar gyfer y dyfodol;</li> <li>• Technoleg Quantum</li> </ul> <p>Anfonwch unrhyw awgrymiadau ynghylch unrhyw gyfleoedd o fewn yr heriau at JW.</p> <p>Bydd 3ydd Ton. Mae hyn i'w gyhoeddi ac ni wyddom beth yw'r broses ar hyn o bryd.</p> <p>Mae bargeinion y Sector yn cyd-fynd â'r heriau o fewn y strategaeth ddiwydiannol, ac yn gytundeb rhwng y sector diwydiannol a'r sector cyhoeddus i fynd i'r afael â rhai o'r heriau.</p> <p>Mae JW wedi datgan bod yn rhaid cael rhywfaint o gysondeb rhwng yr Heriau a 4 o fargeinion y dinas-ranbarthau Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, Bargaen Ranbarthol y Canolbarth (mae trafodaeth ar hyn o bryd) a Bargaen Rhanbarth Gogledd Cymru sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd.</p> <p>PC i ddosbarthu'r sleidiau.</p>	<p><b>Y Cyngor Cyngorol</b></p> <p><b>PC</b></p>
6	<b>Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi</b>	

	<p>Bu AD yn trafod y Cynllun Gweithredu Economaidd newydd, Llewyrch i Bawb. O fewn y cynllun, mae 5 galwad i weithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datgarboneiddio;</li> <li>• Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlys;</li> <li>• Allforio a Masnachu;</li> <li>• Swyddi o Ansawdd Da, Datblygu Sgiliau a Gwaith Teg;</li> <li>• Ymchwil a datblygu, Awtomatiaeth a Digiddeiddio.</li> </ul> <p>Mae 3 Sector Cenedlaethol yn hytrach na'r 9 sector presennol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaethau y gellir eu masnachu;</li> <li>• Gweithgynhyrchu Uchel ei Werth;</li> <li>• Galluogwyr.</li> </ul> <p>a'r 4 Sector Sylfaen:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Twristiaeth;</li> <li>• Bwyd;</li> <li>• Manwerthu;</li> <li>• Gofal.</li> </ul> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd i'w gyhoeddi ar 12 Rhagfyr 2017.</p>	
<p><b>7</b></p>	<p><b>UNRHYW FATER ARALL</b></p> <p>Anfonwch unrhyw awgrymiadau am aelodau newydd posibl at PC.</p> <p>Bydd gweithdy'n cael ei drefnu ar gyfer Ionawr 2018 i bennu cyfeiriad y Cyngor yn y dyfodol.</p> <p>Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf IACW ar 2il Mawrth 2018, y lleoliad i'w gadarnhau.</p>	<p><b>Y Cyngor Cyngorol</b></p> <p><b>PC</b></p>